tafod elái

GORFFENNAF 2012

Rhif 269

Pris 80c

Côr o Lydaw yn ymweld â Llantrisant

Ar ddechrau mis Mehefin bu côr o L'Orient, Llydaw yn ymweld â'r ardal. Mae yma gefndir diddorol i'r ymweliad. Ers y 70au mae Guto Roberts wedi cadw mewn cysylltiad ag Alan Herve a fu'n astudio yng Nghaerdydd fel "French Assistant" yn ysgol Uwchradd Sant Teilo. Tra'r oedd yng Nghaerdydd aeth Alan ati i ddysgu Cymraeg trwy fynychu aelwyd yr Urdd yn Heol Conwy ac mae wedi dal ati i ymarfer ei Gymraeg ers hynny. Mae Alan yn aelod o gôr cymysg - Kanerion an Oriant - yn L'Orient, a Guto yntau yn ganwr o fri. Felly dyma wahodd y côr i Gymru am y tro cyntaf.

Wedi te bendigedig yn nhy Guto a Glenys ar bnawn Sul 3ydd, cynhaliodd y côr gyngerdd ar y cyd gyda'r Chords, (grwp lleol mae Guto yn canu ynddo) yn eglwys Llantrisant a daeth cynulleidfa gref i wrando. Llwyddodd Alan i gyflwyno holl raglen ei gôr yn y Gymraeg (yn ogystal â Saesneg a Llydaweg!) a chafodd glod enfawr am ei waith. Wedi'r cyngerdd cafwyd cawl a mwy o ganu yn festri'r eglwys – gweler Guto ag Alan yn arwain y canu.

Trannoeth bu'r Kanerion an Oriant yn canu yn yr haul yn Sain Ffagan cyn dychwelyd i Lydaw ar y dydd Mawrth.

Kanerion an Oriant yn Sain Ffagan gyda Guto a Glenys

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd

Grŵp Daniel, Adran Bro Taf Dawns Stepio Cymysg Bl 6 ac iau

Jessica Veale, Ysgol Gynradd Creigiau. 1af ar y Llefaru Unigol Bl 3 a 4 (D)

Daniel Calan Jones 1af ar y Stepio unigol i fechgyn o dan 15 oed

Ysgol Gymraeg Llantrisant 1af ar Ensemble Lleisiol Bl 6 ac iau

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 1 Medi 2012
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
1 Awst 2012

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg
Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

Taith Tynged yr Iaith

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn trefnu taith ar draws Cymru eleni i dynnu sylw at sefyllfa'r Gymraeg ar lefel gymunedol fel rhan o'n dathliadau hanner canmlwyddiant. Fe fydd y daith yn dechrau yn Eisteddfod yr Urdd yn Eryri ym Mis Mehefin eleni ac yn teithio ar draws y wlad, gan orffen yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg.

Fe ddangosodd y cyfrifiad diwethaf gwymp sylweddol yn y nifer o gymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan 70% o'r boblogaeth. Blaenoriaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg dros y cyfnod nesaf fydd gwrthdroi hynny. Gobeithiwn y gallwn, ar y daith, sefydlu Cynghrair Cymunedau Cymru trwy rwydweithiau presennol a newydd er mwyn eu galluogi nhw i lobio'n rymus dros ddyfodol ein cymunedau.

Bydd y daith yn cyrraedd Efail Isaf ar 30 Gorffennaf a bydd cyfarfod yn y Ganolfan yn yr hwyr. Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch ag Osian Jones gogledd@cymdeithas.org neu 01286 662908

Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg: Beth yw'ch barn?

Y llynedd fe basiwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn y Cynulliad; deddfwriaeth a roddodd statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru, ac a greodd rôl Comisiynydd y Gymraeg.

Fe ddechreuais yn fy ngwaith fel Comisiynydd y Gymraeg ar 2 Ebrill 2012. Rôl y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Mae'r Mesur yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn cyflwyno dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â Safonau statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae Safonau yn nodi sut y bydd disgwyl i sefydliadau drin a defnyddio'r Gymraeg. Y bwriad yw ei gwneud yn fwy eglur pa wasanaethau y gall pobl ddisgwyl eu cael yn Gymraeg a bod y gwasanaethau hynny yn gyson.

Mae'r Safonau drafft cychwynnol wedi eu llunio, ac rwy'n awyddus i glywed barn unigolion a sefydliadau a chymdeithasau ar y Safonau drafft – beth bynnag bo'r farn honno.

Estynnir gwahoddiad i chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn. A fyddwch gystal â chyflwyno eich sylwadau i mi erbyn 11 Awst 2012.

Gallwch weld y Safonau drafft ac ymateb i'r ymgynghoriad ar wefan y Comisiynydd www.comisiynyddygymraeg.org neu mae croeso i chi gysylltu ac fe yrrwn gopi papur atoch 0845 6033 221 neu post@comisiynyddygymraeg.org

Yr eiddoch yn gywir
Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Cydnabyddir Cefnogaeth

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gweithgareddau i Ddysgwyr

Clybiau Cymraeg yr Haf
Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau ar gyfer dysgwyr sydd eisiau ymarfer siarad neu ddarllen Cymraeg dros yr haf. Bydd clybiau'n dilyn amserlen pythefnos, ac yn para rhwng 02 Gorffennaf a 24 Awst. Bydd y Ganolfan hefyd yn cynnal dwy daith gerdded yn ystod yr haf, a thrip diwrnod i Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg. Mae'r manylion am y digwyddiadau yma ar yr amserlen. Gwelwch yr amserlen:

Siop Siarad Pen-y-bont
Safon Mynediad a Sylfaen – bob dydd Iau, 1-2pm, Siop yr hen bont. Safon Canolradd ac Uwch – bob dydd Iau, 2-3pm, Siop yr hen bont.

Clwb Siarad Pontyclun
5:45-6:45pm, dydd Mawrth, 10 Gorffennaf, Llyfrgell Pontyclun. Bob pythefnos. Dysgwyr safon Canolradd a drosodd.

Clwb Cinio Prifysgol Morgannwg
1pm-2pm, bob dydd Gwener, Stilts, Campws Prifysgol Morgannwg, Trefforest – edrychwch am yr arwydd: 'Clwb Cinio Cymraeg' ar un o'r byrddau. Croeso i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

Gig Cymraeg - Abercwmboi
Twmpath gyda Jac y Do 7:30pm, 13 Gorffennaf, Clwb Rygbi Abercwmboi, £6.
Tocynnau yn unig, ffoniwch Mairwen: 01685 871 447/ neu Gaynor: 01685 871 042

Ifan Dylan. Swyddog Dysgu Anffurfiol
01443 482 555 idylan@glam.ac.uk
Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Morgannwg, Pontypridd, CF37 1DL
01443 483 600
www.welshlearners.org.uk

Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012

Llefaru Unigol Bl 3 a 4 (D)
1af Jessica Veale, Ysgol Gynradd Creigiau
Ensemble Lleisiol Bl 6 ac iau
1af Ysgol Gymraeg Llantrisant
Unawd Bl 3 a 4
3ydd Luke James, Ysgol Gymraeg Llantrisant
Dawns Stepio Cymysg Bl 6 ac iau
1af Grwp Daniel, Adran Bro Taf,
3ydd Grwp Nansi, Adran Bro Taf.
Grwp Llefaru Bl 6 ac iau (D)
1af Ysgol Gynradd Creigiau.
Parti Deulais (Y.C./Adran) Bl 6 ac iau
1af Ysgol Gymraeg Llantrisant.
Cân Actol Bl 6 ac iau (Ysg. hyd 100)
2il, Adran Bro Taf.
Parti Cerdd Dant (Adran) Bl 6 ac iau
3ydd Adran Bro Taf.
Dawns Werin Bl 6 ac iau (Ysg. hyd 100/ Adran hyd 50) - 3ydd Adran Bro Taf
Parti (Adran) Bl 6 ac iau - 1af Adran Bro Taf.
Grwp Llefaru (Adran) Bl 9 ac iau
1af Adran Bro Taf.
Dawns Werin Unigol i Ferched Bl 9 ac iau
1af Lleucu Parri, Ysgol Gyfun Plasmawr.
Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl 9 ac iau
1af Daniel Calan Jones, Ysgol Gynradd Creigiau.
3ydd Gwynfor Dafydd, Adran Bro Taf
Llefaru Unigol Bl 7 - 9
2il Gwynfor Dafydd, Ysgol Gyfun Llanhari.
Dawns Werin Bl 7, 8 a 9
1af Adran Bro Taf.
Cân Actol Bl. 7, 8 a 9
2il Ysgol Gyfun Garth Olwg,
Dawns Werin Unigol i Ferched Bl 10 a dan 25 oed - 3ydd Siwan Evans, Adran Bro Taf.
Unawd Piano Bl 10 a dan 19 oed
1af Ifan Jenkin, Ysgol Gyfun Llanhari.
Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl 10 a dan 25 oed
1af Trystan Gruffydd, Adran Bro Taf .
Dawns Werin Bl 10 a dan 19 oed
2il Adran Bro Taf
Dawns Stepio i 2, 3 neu 4 Bl 7 a dan 25 oed
2il Trystan, Gwynfor ac Osian, Adran Bro Taf
Cyflwyno Alaw Werin Unigol 19-25 oed
Dawns Stepio Bl 7 a dan 25 oed
1af Adran Bro Taf

Serameg / Crochenwaith Bl. 3 a 4
3ydd Eliza Price, Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg
Serameg / Crochenwaith Bl. 5 a 6
3ydd Isabell Price, Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg
Ffotograffeg/Graffeg Cyfrifiadurol Bl.6 ac iau - 2il Osian Lloyd Owen, Ysgol Gynradd Creigiau
Ffilm neu animeiddiad - Uwchradd
2il Aled Illtud, Ysgol Gyfun Garth Olwg
Gemwaith Bl. 3 a 4
3ydd Myfanwy Evans, Ysgol Gymraeg Llantrisant

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Llongyfarchiadau i Betsi
Gwn mai brodor o'r Gilfach yw Betsi Griffiths ond dw i'n siwr y gallwn hawlio rhan ohoni yn Nhonyrefail gan mai hi oedd Pennaeth yr Ysgol Gynradd Gymraeg am bum mlynedd ar hugain. Bydd Betsi'n cael ei hurddo yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ac yn derbyn y wisg las. Cyn hynny, bydd yn cael llawdriniaeth i gael clun newydd. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi Betsi – mae pawb yn gobeithio eich gweld derbyn eich anrhydedd yn Llandw.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlir yn ddwys â Mr Alan Fussell, gofalwr Ysgol Gymraeg Tonyrefail, a gollodd ei wraig, Liz, yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gan i Alan a Liz fyw yn nhŷ'r ysgol yng nghanol y plant tan yn ddiweddar iawn, mae'r ddau ohonynt wedi bod yn rhan o gymuned yr ysgol ers blynyddoedd mawr. Bu Liz ei hunan yn gweithio fel cynorthwy-ydd amser cinio yn yr ysgol. Collodd frwydr hir yn erbyn cansyr.

GWAELOD Y GARTH A FFYNNON TAF

Gohebydd Lleol: June Huws

Academi Catrin Finch
Bydd pentref Gwaelod-y-garth yn fwrlwm o weithgaredd ddiwedd Gorffennaf pan fydd telynorion o dramor yn mynychu gwersi a gweithdai o dan ofal Catrin Finch. Mi fydd yna gyfle i'r cyhoedd fynd i rhai o'r digwyddiadau ac mae fwy o wybodaeth ar wefan Catrin Finch.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Esyllt a Doc Dafydd -Dlamini ar enedigaeth Carmen Lisi ar ddiwedd mis Mai. Wyres fach i Dafydd a June Huws G-y-garth ac i deulu Doc yn Bulawayo, Zimbabwe. (Llun tudalen 4)

Llongyfarchiadau.
Llongyfarchiadau i Lowri Wyn Jones a Gwern Llywelyn Jones ar eu dyweddiad yn ystod eu gwyliau yn Galicia, Sbaen.
Mae Lowri yn ferch i Rhian a Wyn Jones Tonteg, a Gwern yn fab i Angharad ag Alwyn Harding Jones, Ffynnon Taf

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y Mis:
Eirlys Lamb

Mynwent Cefn y Parc
Mae'n siwr fod y cerddwyr yn yr ardal wedi darganfod ei bod yn amhosib cerdded trwy fynwent Cefn y Parc ers rhai wythnosau bellach gan fod difrod wedi ei wneud i'r gatiau ar ochr y ffordd ddwyreiniol (sef yr heol heibio i siop Arthur Llewelyn Jenkins). Y si ar led ar y pryd oedd fod rhywun diwardd wedi ceisio dwyn y gatiau – stori digon gredadwy yn y byd sydd ohoni. Ond yn ôl swyddfa Rhondda Cynon Taf roedd lori wedi bacio'n ôl i'r gatiau ac achosi niwed sylweddol i'r pileri bob ochr. Erbyn hyn mae'r pileri wedi eu hail- adeiladu ond rhaid aros am wythnos arall i'r sment i sychu. Erbyn i chwi ddarllen yr hanes yma mae'n siwr y bydd hynny wedi digwydd a'r gatiau wedi au hail-agor.

Graddio
Llongyfarchiadau i Gwenan Haf Evans, Brynsadler, ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg. Mae Gwenan yn ferch i Sian a Hywel Evans. Dilynodd Gwenan ôl troed ei thadcu, yr Athro D Ellis Evans - treuliodd y ddau y flwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Aberystwyth, trosglwyddodd y ddau ohonynt i Brifysgol Abertawe i gwblhau eu gradd, a chafodd y ddau radd dosbarth cyntaf! Mae Gwenan nawr yn bwriadu dilyn Cwrs Meistr yn Abertawe - pob hwyl iddi gyda'r astudiaethau pellach.

Rhiannon Price fydd yn casglu newyddion ar gyfer rhifyn mis Medi.

Diwrnod y Delyn

Ym mis Gorffennaf bydd y delynores ryngwladol Catrin Finch a'i chyn athrawes, Elinor Bennett yn cynnal Ysgol Haf i delynorion ar gyrion Caerdydd. Mae croeso i bobol wylio'r dosbarthiadau meistr a mynychu'r cyngerdd ar Orffennaf 26ain pan y bydd Catrin, Elinor a'r myfyrwyr rhyngwladol yn perfformio. Ar Sadwrn Gorffennaf 28ain, bydd Diwrnod y Delyn yn cymryd lle yng Ngwaelod y Garth, Caerdydd pan y bydd cyfle i delynorion o bob oed ddod at ei gilydd am ddiwrnod o ddysgu, hwyl a pherfformio. Am fwy o fanylion, ewch i wefan www.catrinfinch.com neu anfonwch ebost at
gwawr@catrinfinch.com Os ydych chi'n hoffi'r delyn, Gwaelod y Garth yw'r lle i fod ddiwedd Gorffennaf.



Carmen Lisi merch Esyllt a Doc Dafydd-Dlamini

Lili, merch Fiona ac Ywain

Gerddi Agored - Carnifal Creigiau

Medaliwn Cymrodoriaeth Churchill Wynford Ellis Owen

Ysgol Creigiau

(Tudalen 7)

Mrs Kirkman yn cael ei gwahodd i eistedd ar gadair o binnau yn un o'r gweithdai gwyddonol!

Hollie Cook a Dyfrig Willis

Priodas Bethan a Jon

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Bethan Chapman a Jon Sutton a briododd ar y cyntaf o Fehefin yn Eglwys St.Catwg, Pentyrch. Buont yn ffodus i ddal diwrnod sych a braf - ac roedd Bethan, Jon a'r morynion yn edrych yn arbennig o hardd. Merch Sián ac Ian Chapman ydy Bethan, a'r taid balch, wrth gwrs ydy Mr Heddwyn Richards. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Dewi Sant yn y Bae - ac aeth y pár priod ar eu mis-mêl i un o ynysoedd Gwlad Groeg. Maent wedi ymgartrefu yma yn y Creigiau, Bethan, Jon a Ruairi. Pob hapusrwydd eich tri!

Rebecca yn dal y ffagl Olympaidd

Plant yn perfformio eu hysbysebion ar gyfer cynhyrchion Olympaidd

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
029 20890979

Gerddi Agored - Carnifal Creigiau
Llongyfarchiadau lu a diolch o galon i'r garddwyr medrus agorodd eu gerddi hyfryd dros ben i'r cyhoedd ddydd Sul, Mehefin yr 17eg. - yn benna er mwyn codi arian at elusennau lleol, ond hefyd er mwyn addysgu a chynnig cyngor gwerthfawr iawn i'r ymwelwyr ar faterion garddwriaethol. Roedd hi wir yn bleser gweld ól gwaith a chrefft arbennig pob un garddwr talentog. Diolch i'r Bod Mawr fe gafwyd ffenestr fechan o heulwen ac awyr las - ac ychydig o wres i fwynhau a gwerthfawrogi'r dydd. Diolch arbennig i Jenny a Mike Macdonald, Alison a David Knight, Nia a Jonathan Honeybun, Frances Bowyer, Lesley a Mike Sherwood, John a Ruth Furlong, Helen a John Davey, Janet a Gus MacDonald, John a Richard ac Ann Oswald am eu croeso cynnes. Wele lun ambell i ardd hyfryd.

Priodas hapus Hollie a Dyfrig!
Yn Eglwys St. Margaret, Y Rhath, Caerdydd ar Fai y 26ain. priodwyd Dyfrig Willis a Hollie Cook. Mab Carole ac Eric Willis yw Dyfrig ac mae Hollie yn dod o Gaerdydd yn wreiddiol. Hyfryd deall bod Delyth, chwaer Dyfrig wedi llwyddo dod adre ar gyfer y briodas yr holl ffordd o Awstralia! Cynhaliwyd y wledd briodas yn Neuadd y Ddinas ac aeth y pâr bach priod ar eu mis mêl i Kefalonia. Pan ddychwelant yn ól i Gymru - Llys Dewi, Creigiau fydd eu cartref. Mae Dyfrig yn gweithio gyda Travis Perkins a Hollie yn Nhy'r Cwmniau yn yr Eglwys Newydd. Maent yn gerddorion gwych hefyd - gwerth eu clywed pan yn chwarae gyda'r Band! Braf cofnodi iddynt briodi yn yr un Eglwys ag y priodwyd Tad a Mam Hollie. Pob hapusrwydd eich dau!

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r Dr. David Knight â'r teulu. Bu farw tad David ganol mis Mehefin ac yntau wedi bod yn ddyn iach, prysur a llawn bywyd ar hyd ei oes. Brodor o ardal Penybont ydoedd - yn gyn-blismon - gawsai ei adnabod fel Vernon "Rockie" Knight. Yn meddwl amdanoch yn eich colled.

Merched y Wawr - Cangen y Garth - Taith Jen!
Cafwyd noson hyfryd i gloi'r tymor dan arweiniad Jenny Macdonald, nos Fercher, Mehefin y 13eg. Ymweliad â chartref John a Ruth Furlong yma yng nghanol pentref Creigiau. Ffermdy hynafol Castell y Mynach yw cartref John a Ruth ac ar y noson arbennig yma fe'n cyflwynwyd i hanes anhygoel y tŷ fferm gan ddau arbenigwr sef Mr Don Llewellyn a'i gyfaill gwybodus Mr Barry Davies. Wel - fe gawsom straeon! Ganddynt hwy a chan y perchnogion! Mae'r ffermdy yn dyddio 'nôl i'r bymthegfed ganrif - o leia - a chanddo hanes cyfoethog iawn - a chysylltiadau aruchel. Ac wrth gwrs mae iddo ei straeon ysbryd! Diolch i John a Ruth am y croeso twymgalon a diolch hefyd i Don a Barry am ein goleuo am hanes y ffermdy. Oddi yno aethpwyd i gartref arall arbennig yn y pentref - sef cartref Jenny a Mike, Pen y Bryn, lle cawsom groeso cynnes iawn a gwledd hyfryd o ddanteithion - diolch i'r 'pwyllgor o ferched' hynod abl eu doniau. Clo teilwng iawn i dymor arall llwyddiannus. Diolch i'r Pwyllgor, dan arweiniad Gwenfil a Carol am eu gwaith di-flino, di-ddiolch yn aml, drwy'r flwyddyn yn darparu rhaglen hynod ddifyr ac amrywiol i ni aelodau lleol Merched y Wawr. Byddwch yn barod i gefnogi a chynorthwyo pan ddaw'r tymor newydd ym mis Medi.

Taid a Nain
Llongyfarchiadau Rhys Dafis a Sheila ar ennill teitl arobryn! Taid a Nain Dafis! Ym mis Mai ganed merch fach i Ywain a Fiona. Fe ddaeth Lili i'r byd ychydig yn gynt na'r disgwyl ond fel y gwelwch o'r llun mae hi'n 'bwten fach ddel tu hwnt - yn cymryd ar ól ei Nain' - geiriau ei Thaid balch! Ac mae'n siwr y caiff hi ambell linell gynganeddol i'w chyfarch yn ystod ei hoes! Dymuniadau gorau bawb!

Llongyfarchiadau mawr ...
... i Emyr Honeybun a Llinos ei chwaer! Mae Emyr newydd raddio o Brifysgol Caerdydd gyda 2i mewn Cerddoriaeth ac ym mis Medi bydd yn parhau gyda'i astudiaethau yng ngholeg Somerville, Rhydychen. Canlyniad ardderchog Emyr! Fe gofiwch efallai i ni ddilyn llwyddiannau Emyr dros y blynyddoedd ar y trac rasio tra'n cartio ar lefel uchel iawn. Nid yw'r diddordeb hynny wedi pylu chwaith - a da iawn ti am ffeindio lle i bob dim! Mae Llinos, chwaer Emyr wedi bod yn cyflawni yr un mor ddiwyd ac yn y flwyddyn ddiwetha 'ma, wedi ennill ei gradd wyth ar dri offeryn! Anhygoel! Mae'n chwarae'r ffliwt, y sacs a'r clarinet! Disgybl chweched dosbarth yw Llinos ar hyn o bryd, newydd sefyll ei harholiadau Lefel 'A' ac yn edrych ymlaen at ddilyn cwrs Pharmacoleg yn y brifysgol ym mis Medi. Pob llwyddiant i'r dyfodol eich dau.

Llongyfarchion ...
... i holl sêr Eisteddfod 'amazing' yr Urdd, eleni yng Nglynllifon! Braf oedd gweld cymaint o wynebau cyfarwydd Creigiau a thu hwnt ar lwyfan yr Eisteddfod eleni - da iawn chi un ac oll ar wneud mor dda!

Medal o obaith

Ar ddydd Mercher 30 Mai mewn seremoni fawreddog gynhaliwyd yn y Neuadd Gynnull, Tŷ'r Eglwys, Westminster, Llundain, cyflwynwyd medaliwn Cymrodoriaeth Churchill i Wynford Ellis Owen gan y Fonesig Tanni Grey-Thompson DBE.

Yn ystod 2010, treuliodd Wynford, Prif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau eraill a Stafell Fyw Caerdydd, canolfan adfer fawr newydd yn y gymuned ar gyfer Caerdydd a De Cymru, dri mis yn yr UD fel rhan o'i Gymrodoriaeth Churchill. Bu'n ymweld â nifer o ganolfannau adfer newydd yn y gymuned oedd wedi llwyddo i adfer pobl o broblemau alcohol a chyffuriau eraill difrifol. Mae rhwydwaith o ganolfannau o'r fath yn Vermont, Connecticut, Philadelphia, Washington D.C. a Virginia.

Dywed Wynford, "Mae'n anrhydedd mawr derbyn y fedal gan gyd Gymraes ac un rwyf wedi'i hedmygu am nifer mawr o flynyddoedd. Rydw i mor falch bod cymaint wedi deillio o'm taith gyda Chymrodoriaeth Churchill. Erbyn hyn, rydyn ni'n arbed bywydau ac yn cynnig gobaith lle nad oedd unwaith ond anobaith llwyr. Y rheswm pam roeddwn am ymweld ag America oedd oherwydd bod rhai storïau o lwyddiant anghyffredin wedi dod o'r canolfannau hyn a phetaen ni'n gallu ailadrodd hyn yng Nghymru, byddai'n lleddfu'n sylweddol ar y problemau cymdeithasol anferth hynny sy'n digwydd o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Roedd un teulu o'r pentref wedi cael llwyddiant ysgubol. Daeth Daniel Calan Jones yn gyntaf ar y Stepio unigol i fechgyn o dan 15 oed - y tro cyntaf iddo gystadlu! Roedd Grŵp Clocsio Daniel yn gyntaf a Iestyn (brawd Daniel) yn 'Grwp Nansi' ddaeth yn drydydd yn yr un gystadleuaeth! Dyna beth oedd cystadleuaeth deuluol !

Roedd Daniel yng Ngrŵp Dawnsio gwerin Adran Bro Taf ddaeth yn drydydd.

A daeth Cân Actol Adran Bro Taf yn ail.

Adran Bro Taf

Cafodd Adran Bro Taf nifer fawr o lwyddianau yn ystod Eisteddfod yr Urdd . Diolch yn fawr iawn i'r staff ymroddgar - Gavin Ashcroft, Eirlys Britton, Cliff Jones a Nerys Griffiths.

Os oes rhywun am ymuno ym mis Medi cynhelir yr ymarferion ar ddydd Mawrth yn Ysgol Heol y Celyn 5.30 - 7.30

Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Ffarwelio â Mrs. Greaney

Ar ddiwedd y tymor hwn byddwn yn ffarwelio â Mrs. Moyra Greaney fydd yn ymddeol. 'Rydym yn diolch yn fawr iddi ac yn dymuno'n dda iddi ar ôl ei chyfnod o chwe blynedd yn yr ysgol. Yn ystod ei gyrfa mewn nifer o ysgolion cynradd yn Ne Cymru bu'n bennaeth ac yn ddirprwy a chyfrannodd yn helaeth o ran cerddoriaeth yn yr holl ysgolion hynny. Bydd cyfle 'nawr iddi dreulio mwy o amser gyda'i theulu – yn enwedig ei hwyres Megan yn Llundain. Pob hwyl Mrs. Greaney.

Y Llyfrgell ac Ymweliad Awdur

Mae'r plant meithrin a derbyn wedi bod i lyfrgell Pontypridd i fwynhau gwrando ar stori a dewis llyfrau ar gyfer y dosbarth. Maen nhw i gyd wedi cael cyfle i ddod yn aelodau o'r llyfrgell.

Daeth Mr. Alun Wyn Bevan i'r ysgol i siarad gyda phlant yr adran iau am Y Gemau OIympaidd ac am ei lyfr " Y Gemau Olympaidd a Champau'r Cymry". Mwynheuodd y plant wrando ar nifer o straeon difyr ac 'roedd Mr. Bevan yn llawn hwyl. Bu'n llofnodi nifer o gopïau o'i lyfr.

Diolch i Mrs. Ceri Morgan a Mrs. Delyth Blainey am wneud yr holl drefniadau.

Teithiau

Aeth dosbarthiadau 3 a 4 i fferm Cantref ger Aberhonddu. Cafodd y plant gyfle i drin a thrafod anifeiliaid anwes, i fwydo ŵyn ac i fynd o gwmpas y fferm ar gefn tractor.

Aeth dosbarthiadau 8 a 9 i Eglwys Sant Catherine yn y dref i edrych ar yr adeilad hardd sydd â ffenestri lliw o Oes Fictoria ac i ddysgu geirfa newydd sy'n gysylltiedig â'r eglwys.

Chwaraeon

Enillodd dau dîm pêl-rwyd yr ysgol yn erbyn timau Ysgol Castellau : y tîm 'A' o 3-0 a'r tîm 'B' o 5-0.

Cawsom lwyddiant ysgubol eto eleni yng Ngala Nofio Ysgolion Pontypridd ym Mhwll Nofio Y Ddraenen Wen. Cafwyd perfformiadau hyderus ac egnïol gan bob un o aelodau'r garfan gan sicrhau medalau mewn naw allan o ddeg cystadleuaeth :
Ras Bechgyn Blwyddyn 3 – Liam Huxtable, Efydd. Ras Merched Blwyddyn 3 – Anwylun Pike, Arian. Ras Bechgyn Blwyddyn 4 – Ewan Edwards, Arian.
Ras Merched Blwyddyn 4 – Anwen Davies, Arian. Ras Bechgyn Blwyddyn 5 – William Holmes, Aur. Ras Merched Blwyddyn 5 – Awel Pike, Efydd. Ras Bechgyn Blwyddyn 6 – Morgan Lee, Efydd. Ras Merched Blwyddyn 6 – Kate Jones, Aur. Ras Gyfnewid Y Merched – Isobel Henson, Clara Nuthall, Awel Pike a

Mr. Alun Wyn Bevan fu'n siarad am ei lyfr "Y Gemau Olympaidd a Champau'r Cymry "

Medalau Gala Nofio Ysgolion Pontypridd

Kate Henson, Arian.

Tîm ras gyfnewid y bechgyn oedd Emyr Brown, Morgan Lee, Ewan Edwards a Williams Holmes a llongyfarchiadau mawr i bob aelod o'r garfan am gynrychioli'r ysgol gyda balchder a brwdfrydedd. Diolch i Mena Griffiths-Warner, Lieu Thomas, Maisie George a Carys Murphy am wisgo mewn gwisgoedd Cymreig er mwyn cynorthwyo gyda'r seremoni wobrwyo ar ddiwedd y gala. Hoffai'r garfan ddiolch i un o'r athrawesau Ms. Meinir Morris a Mr. Mel Hinksman sy'n rheolwr y pwll nofio am eu holl waith caled wrth drefnu'r gala unwaith eto eleni. Diolch hefyd i'n cefnogwyr swnllyd am weiddi a chymeradwyo o'r galeri!

Cylchlythyr yr Ysgol

Edrychwn ymlaen at gael y trydydd copi o gylchlythyr yr ysgol 'Yr Anthem' ym mis Medi. Bydd y newyddion i gyd ar gael ar "moodle" yr ysgol hefyd.

Gwefannau Cymraeg

www.cymorth.com
www.gwefan.org
www.tafelai.com
www.caerdydd.biz
www.tabernacl.org
www.menteriaith.org
www.gwe-bethlehem.org
www.urdd.org
www.mentercaerdydd.org
www.bwrdd-yr-iaith.org
www.banglacymru.org.uk

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Mae aelodau Capel Moreia wedi bod yn paratoi gyda chapeli eraill Bedyddwyr Cwm Rhondda ar gyfer y perfformiad o ganeuon ar rai o hanesion o'r Hen Destament gan y diweddar Verina Mathews. Perfformir DUW'R ENFYS yn Soar Penygraig Dydd Sadwrn Gorffennaf 7ed am 2o'r gloch pryd y bydd ardaloedd Merthyr, Cwm Rhymni Pontypridd a Chaerdydd yn ymuno yn y perfformiad. Croeso cynnes i bawb.

Marwolaeth

Daeth newyddion trist i'r cwm pan glywyd am farwolaeth 'Lyn y Nyrs' . Er mai ar stad Gelli Seren yr oedd yn byw cafodd ei geni a'i magu yn Gilfach yn ferch i Tom a Nansi Evans, Holly Street. Wedi dyddiau ysgol aeth i weithio mewn siop cyn penderfynu mynd yn nyrs. Trwy ymroddiad a gwaith caled llwyddodd i gyrraedd y swydd o brif Nyrs yn Adran y Cleifion Allanol yn Ysbyty Llwynypia. Roedd y cleifion yn ei charu am ei gofal a'i charedigrwydd tuag atynt ac roedd yn enwog am ei ffraethineb a'i hiwmor.

Yn dorcalonnus o drist tarawyd hi ag afiechyd marwol. Gwynebodd ei dioddefaint a dewrder gyda chymorth ei phriod Martin. Mae pawb yn cydymdeimlo'n fawr iawn ag ef yn ei golled.

Daeth perthnasau, cyfeillion a chydweithwyr yn eu cannoedd i'r Gwasanaeth Angladdol yn Amlosgfa Llangrallo ar Fehefin 13ed. Ffrind a chydweithiwr a draddododd y deyrnged dwymgalon iddi yn y gwasanaeth dan ofal y Tad Haydn England-Simon. Heddwch i'w llwch.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Indeg Evans merch Dean a Carys Evans, Porthcawl, a ddaeth yn drydydd yn y ddeuawd dan 12. Mae Indeg yn ddisgybl yn Ysgol y Ferch o'r Sger ond mae ei thad Dean yn frodor o 'r Gilfach. Llongyfarchiadau ar gael y wobr gyntaf i Gôr Cerdd Dant Aelwyd Porthcawl sy'n cael ei hyfforddi gan Carys Evans.

Bore Coffi'r Dysgwyr

Bore Coffi i'r dysgwyr yn y Sgubor, Mwyndy, Llantrisant, bob bore Gwener o 11 hyd hanner dydd. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Marian Wynne

Cario'r Ffagl

Roedd Mai 25 yn benllanw i gyfnod cyffrous iawn yn hanes Sara Pickard. Ar ddiwedd mis Ebrill fe'i gwahoddwyd i fod yn bresennol yng ngwasanaeth Jiwbili y frenhines yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Wedyn ar ddechrau mis Mai fe'i hail-etholwyd i gynrychioli Pentyrch ar y Cyngor Cymuned. Yna ar Fai 25 fe gafodd y fraint o gario'r ffagl Olympaidd ar ran o'r daith trwy Gaerdydd. Fe'i henwebwyd nôl ym mis Mehefin y llynedd gan un o'r mamau yn y grŵp lleol o rieni sy'n cefnogi teuluoedd sydd â phlentyn neu berson ifanc â Syndrom Down. Bu'n rhaid aros wedyn tan fis Rhagfyr i glywed ei bod ar y rhestr fer; cadarnhad wedyn ym mis Chwefror ei bod wedi cael ei derbyn, ac yna ar ddiwedd mis Ebrill dyma'r wisg a'r manylion am y lleoliad yn cyrraedd. 'Roedd Sara'n cario'r ffagl ar hyd darn o Newport Road ger ysgol St Illtyd. Fe'i syfrdanwyd gan y cannoedd o bobl, - yn cynnwys teulu, cymdogion, cyd-weithwyr, cyn-athrawon, cyd-gynghorwyr a ffrindiau – a ddaeth i'w chefnogi hi. Yna fe ddaeth nifer fawr o ffrindiau nôl i'r tŷ ym Mhentyrch i gael barbeciw a llymaid ac wrth gwrs i gael llun ohonynt gyda'r ffagl! 'Roedd Sara'n falch iawn o fod yn rhan o ddigwyddiad mor hanesyddol, ac ni fydd hi na'i theulu'n anghofio'r cynnwrf a'r hwyl a gafwyd yn sgîl y profiad.

Taith Sadwrn – Clwb y Dwrlyn

Taith fws i Flaenau Morgannwg oedd hanes aelodau Clwb y Dwrlyn ar Sadwrn olaf Mai a'r tywydd yn anarferol o braf. Galw yn gyntaf yn Amgueddfa ac Oriel Aberdâr gan dreulio orig yno yn olrhain hanes y cwm a rhyfeddu at arddangosfa o waith anhygoel yr artist cwilt cyfoes Diana Brockway. I hoelio sylw pawb paratowyd cwis gan Gill a Peter Griffiths gan ysgogi elfen gystadleuol ambell un, ond cystadlu neu beidio.

Ymlaen o Aberdâr am ffordd blaenau'r cymoedd ac i lawr i Bontneddfechan lle 'roedd Alun Wyn Bevan yn aros i dywys y criw ar daith gerdded yn ardal y sgydau. Ddwy flynedd yn ôl dilynwyd rhan o gwrs afon Mellte; y tro yma aethpwyd i lawr afon Nedd Fechan gan gychwyn o Bont Melin Fach a mynd heibio i sgydau'r Ddwli, sgwd y Bedol ac yna sgwd Gwladus. Taith hyfryd ac Alun yn rhannu o'i stôr o wybodaeth eang am y tirwedd a'r bywyd gwyllt. Difyrrwch gwahanol oedd gweld glaslanciau ac ambell lances yn neidio o ben sgwd Gwladus i bwll digon bychan islaw! Gorffennodd y daith yn nhafarn yr Angel ym Mhontneddfechan lle bu cyfle i ddisychedu a chael pryd o fwyd cyn troi am adre'.

Dydd hynod ddiddorol a phleserus. Mawr yw'r diolch i Alun Wyn Bevan am ei arweiniad campus ac i Gill a Peter am drefnu'r cyfan. Bydd edrych ymlaen at gyfle arall i ddod 'nôl i ardal y sgydau.

Arwr y dydd serch hynny oedd Ifan Roberts wrth iddo gydio mewn oen bach colledig a'i godi dros y ffens yn ôl at ei fam!

Clwb y Dwrlyn—Nabod y Fro

Eleni eto cawsom fodd i fyw wrth i Don Llewellyn ein diddanu a'n haddysgu am fywyd y fro. Y tro hwn pentref Pentyrch ei hunan oedd dan sylw ac fe'n tywyswyd ar hyd lonydd a heolydd y pentref gan aros fan hyn a fan draw wrth adeilad neu lecyn arwyddocaol hanesyddol. Drwy gyfrwng hanesion digrif, ffotograffau pwrpasol ac ambell rigwm a thriban cawsom gipolwg ar hanes y pentref hynafol hwn.

Cychwynwyd y daith tu allan i Neuadd y Pentref lle safai capel Bronllwyn ar un adeg ac wrth ymlwybro tuag at ysgol y pentref cawsom hanesion doniol am y rasys 'point-to-point' a gynhaliwyd yn y caeau islaw. Tu allan i gapel Penuel cyfeiriodd Don at Ddiwygiad 1859 pan ymgasglodd cannoedd o bobl i wrando ar bregeth danbaid y gweinidog bryd hynny. Gan anelu at Eglwys Catwg Sant aethom heibio safle hen ysgol y plwyf a hefyd safle un o amryw o fythynnod to gwellt a nodweddai'r pentref ar un adeg. Wrth borth yr eglwys cawsom hanes sefydlu'r gell Gristnogol gan Catwg Sant yn y chweched ganrif. Hefyd cyfeiriwyd at amryw o feddau pobl adnabyddus y plwyf gan gynnwys beddau cyndeidiau Don.

Tu allan i'r Kings Arms soniwyd am Gymdeithas yr Odyddion (Oddfellows) a gyfarfu yno ar un adeg ac o gofio mai cymdeithas gyfeillgar oeddent a gynigiai gymorth i bobl anghenus, priodol iawn oedd ei harwyddair sef "Llygad i weled, calon i deimlo, llaw i gyfrannu".

Yna ymlaen ar hyd Heol y Pentre i Faes y Gof lle roedd yr efail gynt ac yna cyrraedd Cefn Bychan lle roedd unwaith ffwrwm farddol. Gwelwyd lluniau o Fferm Cefn Bychan, Fferm Pen y Garn a theras o fythynnod gydag un tap dŵr yn unig rhyngddynt. Tu allan i'r Lewis Arms gwelsom lun o'r helfa a ymgasglai yno ac wrth droi am Heol y Mynydd gwelsom lun o Cambrian Terrace lle magwyd Don. Cyn troi am Heol Ty'n y Coed gwelsom fwthyn bychan Castell y Cwrcyn lle magwyd saith o blant. Ar ôl ymlwybro'n hamddenol drwy Faes y Sarn daethom yn ôl i Neuadd y Pentref. Cwta dwy filltir oedd y daith ond teithiom yn bell yn hanesyddol. Mae balchder, ac yn wir cariad Don at ei fro yn amlwg, a braf oedd bod yn ei gwmni eleni eto. Diolch yn fawr Don.

Ysgol Creigiau

(Lluniau tudalen 4)

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dros wyliau'r Sulgwyn:
Daniel Calan Jones – cyntaf yng nghystadleuaeth dawnsio i fechgyn Bl9 ac iau
Jessica Veale - cyntaf yng nghystadleuaeth llefaru i ddysgwyr Bl 3 a 4
Grŵp Llefaru Ail Iaith – cyntaf yn y gystadleuaeth i bartion ail-iaith Bl6 ac iau.
Osian Lloyd Owen – ail am ei waith celf.

Cynhaliwyd Wythnos Wyddonol yn yr ysgol yn ddiweddar. Bu'n wythnos lwyddiannus iawn gyda phawb yn cael cyfle i ymuno mewn nifer o weithdai diddorol – rhai yn seiliedig ar y corff, eraill ar anifeiliad a'r gofod. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am eu cymorth i drefnu'r wythnos.

Treuliodd Mr Dylan Adams ddau ddiwrnod yn yr ysgol yn gweithio gyda disgyblion CA2. Bu pawb yn brysur naill ai'n creu hysbysebion ar gyfer cynhyrchion Olympaidd neu yn cyfansoddi caneuon Olympaidd.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn yn ddiweddar hefyd o gael cyfle i gyfarfod a chlywed hanes rhai athletwyr sydd wedi cystadlu yn rhai o gemau Olympaidd a Pharalympaidd y gorffennol. Roedd hanesion a phrofiadau pob un yn unigryw a daethant â'u medalau aur, arian ac efydd gyda nhw i ni allu eu gweld a'u dal. Daethant hefyd â ffagl Gemau Olympaidd Llundain 2012 gyda hwy a chafodd pob un plentyn y cyfle i'w ddal. Roedd y diwrnod hwn yn un fyth-gofiadwy i bawb.

Ffisiotherapydd yw mam Jac Harries Dosbarth 3, ac mae wedi cael ei dewis i fynd i weithio gydag athletwyr tîm Prydain yng Ngemau Olympaidd Llundain. Fe ddaeth Mrs Harries hefyd i mewn i siarad gyda ni a rhannu ei phrofiadau o weithio yng ngemau Beijing 2008 ac i egluro beth fydd ei gwaith yng ngemau Llundain.

Llongyfarchiadau i Mrs Glenda Griffith, Dosbarth 2, ar enedigaeth ei merch fach, Cadi Jên yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau iddynt.

Braf hefyd yw gallu dweud bod yr ysgol wedi ennill y Faner Werdd am y trydydd tro. Diolch i'r Pwyllgor Eco am eu gwaith a'u harweiniad.

Angen siarad yn gyfrinachol?

SAMARIAID

Llinell Gymraeg
0300 123 3011

Ysgol Gyfun Llanhari

Lluniau Tudalen 13

Eisteddfod yr Urdd Eryri
Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr Ysgol fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Eryri dros hanner tymor a diolch yn fawr i'r athrawon fu'n eu hyfforddi, yn cyfeilio iddynt ac yn eu cefnogi yn y Gogledd. Bu cystadlu brwd yn y rhagbrofion a llwyddodd Gwynfor Dafydd o Flwyddyn 9 ddod yn ail ar y Llefaru Unigol ac Ifan Jenkin yn gyntaf ar yr Unawd Piano.

Aberfan
Cafodd dosbarth 9 set 1 Cymraeg wers i'w chofio brynhawn Llun y 18fed o Fehefin. Daeth tadcu un o'r disgyblion atom i adrodd ei hanes fel un a fu'n gwirfoddoli ar ddiwrnod y drychineb ac yn y diwrnodau yn dilyn y digwyddiad erchyll yn Aberfan. Roedd Mr Edwards yn 20 mlwydd oed pan ddigwyddodd y drychineb, ac yn drydanwr dan hyfforddiant ym Mhwll y Bargoed mewn cwm cyfagos. Adroddodd yr hanes emosiynol, gan gyfleu'r profiad yn fyw iawn i ni'r disgyblion. Cawsom gyfle i gasglu llawer o ffeithiau er mwyn ymarfer gwneud tasg TGAU a fydd yn gofyn i ni gyflwyno gwybodaeth am y digwyddiad. Diolch yn fawr i Ieuan Leigh am drefnu ac i Mr Edwards am ail-fyw'r atgofion poenus ac am roi o'i amser i ddod atom.

Emerald Hughes 9-1

Blwyddyn 6 yn ymweld â Llanhari
Bu Blwyddyn 6 Ysgolion Dolau, Tonyrefail a Llantrisant yn ymweld â'r ysgol ar ddau achlysur yn ddiweddar. Ddydd Iau, Mehefin y 14eg cawsant lawer o hwyl yn ymarfer eu Sbaeneg ac Eidaleg ynghyd â mwynhau sesiynau dawnsio Llydewig ar ddiwrnod Blas ar Iaith. Ddydd Iau Mehefin 21ain buont yn ardddangos eu talentau mewn diwrnod o weithgaeddau Celfyddydau Perfformio.

Caiacio
Disgyblion Ysgol Gyfun Llanhari yn cael llawer o hwyl mewn gwersi caiacio yng Nghanolfan Dwr Gwyn Caerdydd.

Taith Gerdded

Fel rhan o daith y fflam Olympaidd drwy Dde Cymru, trefnwyd taith gerdded i gydfynd â'r diwgyddiad. Roeddwn i, a fy mrodyr Gruff a Jac, fy ffrindiau James ac Alex yn ogystal â 10 disgybl arall o'r ysgol ac ambell ddisgybl o Ysgol y Pant wedi cerdded o Ysgol Gyfun Llanhari i Donyrefail. Roedden ni wedi cerdded dros y mynyddoedd ar bwys y melinau gwynt, ac roedd y daith yn ddeg milltir o hyd - ond roedd yn well gen i'r daith na diwrnod o waith yn yr ysgol! Diolch i Craig Howells Swyddog Menter Iaith yr Ysgol am drefnu'r daith ar ein cyfer.

Arwel Clements 7G

Dysgu Iaith Arwyddo
Cafodd myfyrwyr blwyddyn 12 Ysgol Gyfun Llanhari sydd yn astudio cyrsiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chymdeithaseg gyfle i gymryd rhan mewn cwrs Iaith-arwyddo ar Fehefin y 19eg. Cafodd y cwrs ei drefnu trwy Adran Addysg Oedolion yn y Gymuned, Rhodda Cynon Taf. Ar ôl gorffen y cwrs, bydd y myfyrwyr yn derbyn cymhwyster Rhwydwaith Agored Cymru (OCN).

E3
Fel rhan o gynllun E3 mae disgyblion Ysgol Gyfun Llanhari wedi bod yn ymweld â gwesty'r Fro ar gyfer gwersi Golf gan hyffordd dwr proffesiynol.

Dyma Rhys Rubery o Flwyddyn 7 yn ymarfer!

Cynllun Llwybrau i'r Brig, Yr Urdd
Aeth criw o ddisgyblion bl 10 i Eisteddfod yr Urdd gyda Craig Howells, Swyddog Menter Iaith yr Ysgol i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau awyr agored, ac hefyd i cael blas ar fyd yr Eisteddfod a'r gymuned Gymraeg leol.

Craig Howells Menter Iaith RhCT

Un o ddisgyblion Llanhari'n cario'r Fflam Olympaidd.
Cafodd Amy Nicholls o Flwyddyn 13 y fraint o gario'r Fflam Olympaidd yn gynharach y mis hwn yn ardal Nantymoel.

Hac yr wythnos
Braf oedd gweld Tomos Tweedy, disgybl ym Mlwyddyn 11, yn datgan ei farn yn glir am gynlluniau C.P.D Dinas Caerdydd i newid lliw'r crys o'r glas traddodiadol i'r coch. Doedd Tomos ddim yn cytuno â'r syniad o gwbl! Cafodd gyfle i holi un o gyfarwyddwyr y clwb a chyflwyno'i farn bersonol am y datblygiad arfaethiedig fel rhan o'r eitem ar gyfer y gyfres Hacio ar S4C.

Bardd o fri
Llongyfarchiadau i Gwynfor Dafydd, 9F, ar ennill dwy gystadleuaeth yn ddiweddar. Enillodd gystadleuaeth Awel Aman Tawe gyda'r gerdd 'Dagrau'r Fam Ddaear', a daeth newyddion i'r ysgol heddiw ei fod wedi cipio'r brif wobr yng nghystadleuaeth barddoniaeth Masnach Deg Divine / Cymorth Cristnogol i ddisgyblion rhwng 12-16 oed ar y testun 'Y Siop Siocled'. Eurig Salisbury, Bardd Plant Cymru oedd yn beirniadu, ac edrychwn ymlaen i'w groesawu i'r ysgol ym mis Gorffennaf i gyflwyno'r wobr yn swyddogol i Gwynfor.

<u>Dagrau'r Fam Ddaear</u>

Un ddiwyd fu'r Fam Ddaear – ddydd a nos
rhoddai i ni fyd llachar:
Nyth a heulwen a thalar
a ffyrdd gwyrdd y bywyd gwâr.

Ond wedi i wên ein heulwen ni – ein twyllo
daw t'wyllwch i'n sobri:
Dyn mor wirion fu'n tonni
yr iâ'n llawn o ddagrau'n lli.

Only Boys Aloud

Mae Ysgol Gyfun Llanhari'n falch iawn o'r 'Bois'. Da iawn fechgyn!
Rhys Thomas, Ifan Jenkin ac Aled James o Lanhari cyn y rownd derfynol o 'Britain's Got Talent'

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i nifer o blant y pentref a phlant capel y Tabernacl ar eu llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon ddechrau mis Mehefin. Roedd yn bleser gwylio'r wynebau cyfarwydd yn ymddangos ar y sgrin deledu o ddydd i ddydd. Daeth nifer fawr o wobrau i Adran Bro Taf ac i amryw o'r ysgolion lleol. Llongyfarchiadau gwresog i chi i gyd a diolch o galon i'r hyfforddwyr ymroddedig.

Croeso i'r pentref
Croeso i Beth a Huw Roberts, Mari Gwen ac Elis Ioan i'r pentref. Mae'n braf cael croesawu teulu arall o Gymry Cymraeg i Benywaun.

Dymuniadau Gorau
Dymunwn yn dda i Audrey Jones, Nantyfelin, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod y mis.

Ymddeol
Dymuniadau gorau i Enfys Hughes, Nant y Felin ar ei hymddeoliad. Bu Enfys yn gwneud gwaith gweinyddol yn ysgol Gyfun Garth Olwg am flynyddoedd lawer. Bydd cyfle nawr i hamddena ar y cwch ym Mhwllheli gyda Celt. Pob hwyl Enfys.

Rhybudd yr Heddlu
Daeth amryw o blismyn i'r pentref yn ddiweddar i rybuddio'r pentrefwyr i wneud yn siŵr eu bod yn cloi eu ceir ac yn gwarchod eu heiddo. Torrodd lladron i mewn i dri thŷ yn y pentref nos Sadwrn, Mehefin 16. Fe ddygwyd set deledu a char o un cartref ym Mhenywaun ond fe aflonyddwyd ar y lladron yn y ddau dŷ arall. Mae'r Heddlu'n annog pobol i gysylltu â nhw ar y Rhif 101 os oes yna ddigwyddiad anarferol neu bobl ddiarth yn yr ardal.

TABERNACL

Adferiad Buan
Dymunwn adferiad buan i Glenys Davies, Meisgyn a gafodd ddamwain yn ddiweddar pan gwympodd a thorri asgwrn yn ei throed.

Priodas
Llongyfarchiadau gwresog i Lowri Jones a Chris Leeke ar eu priodas yng Nghapel y Tabernacl ddydd Sadwrn, Mehefin 9fed. Deintydd yw Lowri, yn hanu o San Clêr, ac mae wedi bod yn aelod ffyddlon o'r gynulleidfa ers misoedd bellach.

Merched y Capel
Yng nghanol sbel o dywydd gwyntog, oer a gwlyb fe ddewisodd Merched y Tabernacl fore heulog, braf i ymweld â Gwinllan Llannerch, fore Mawrth 12fed o Fehefin. Cawsom baned a chlonc yn y lolfa cyn cerdded drwy'r goedwig ac o amgylch y llyn. Dewisodd amryw o'r merched aros am ginio yn y bwyty a chael eu plesio'n fawr.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Gorffennaf 11eg a byddwn yn teithio ar y trên i Gaerfyrddin.

Oedfa Sul y Tadau
Trefnwyd Oedfa Deuluol arbennig ar fore Sul, Mehefin 17eg i ddathlu Sul y Tadau. Lowri Roberts fu'n llywyddu a threfnu'r oedfa gyda Gwawr Booth ac Awen Evans yn ei chynorthwyo. Gwahoddwyd nifer o'r tadau i ffurfio 'Côr Meibion' a chafwyd datganiad egniol ganddynt o'r emyn dôn Pantyfedwen. Trefnwyd paned yn y Ganolfan ar ddiwedd yr oedfa i roi cyfle i'r aelodau gymdeithasu.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst.

Gorff 1af Gwasanaeth Gymun o dan ofal ein Gweinidog
Gorff 8fed Y Parchedig Aled Edwards
Gorff 15fed Sul y Cyfundeb
Gorff 22ain Y Parch Eirian Rees
Gorff 29ain Cyd-addoli ym Methlehem, Gwaelod y Garth
Awst 5ed Gwasanaeth Cymun o dan ofal ein Gweinidog
Awst 12fed Cyd-addoli ym Methlehem, Gwaelod y Garth
Awst 19eg Allan James
Awst 26ain Cyd-addoli ym Methlehem, Gwaelod y Garth

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
Llawr Cyntaf, 9 Y Stryd Fawr,
Pontypridd. CF37 1QJ
01443 407570
www.menteriaith.org

Parti Haf 2012

Dewch i ddathlu dechrau'r gwyliau Haf a phenblwydd y Fenter yn 20ain mlwydd oed eleni gyda ni ym Mharc Treftadaeth y Rhondda ar **Ddydd Sadwrn 7fed o Orffennaf (10:30-2:30pm)**
Diwrnod o hwyl a sbri i blant 5-10 oed â thema'r syrcas!
Sgiliau Syrcas gyda'r Dewin
Gemau Parti, Celf a chrefft, Modelwr balwns, Peintio gwynebau a digon o fwyd parti i bawb!
Bydd bag parti arbennig i bawb i fynd gartref hefyd!
Mynediad am ddim – Croeso i bawb!

YSGOL GYNRADD GYMRAEG CASTELLAU

Mascot tîm rygbi Cymru

Pan oedd Joey Jones yn sal iawn rhai blynyddoedd yn ôl gofynnodd ei ffrindiau yn y Make a Wish Foundation iddo wneud dymuniad. Daeth y dymuniad yna'n wir wrth iddo arwain tîm rygbi Cymru i'r cae yn Stadiwm y Mileniwm yn y gêm yn erbyn y Barbariaid. Da iawn ti Joey, am fachgen dewr. Rydyn ni gyd mor falch ohonot.

Traws Gwlad

Da iawn i bawb o'r ysgol fu'n cystadlu yn ras traws gwlad yr Urdd yn Llanhari. Llongyfarchiadau arbennig i Daniel John (Bl5) a Ethan Vaughan (Bl 4) am ennill eu rasys ac i Sara John am ddod yn ail yn y ras i ferched Bl 3&4.

Marc Safon Technoleg Gwybodaeth

Llongyfarchiadau i bawb yng Nghastellau am ennill gwobr Marc Safon am ein defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth. Diolch Miss Hudson am gydlynu'r gwaith a da iawn bawb!

Rhieni newydd

Braf oedd croesawu 35 set o rieni newydd i'r ysgol am noson agored fel rhan o baratoi'r ffordd i dderbyn y grwp nesaf o blant Meithrin ym mis Medi. Bydd y plant yn ymweld â ni ddwywaith o'u cylchoedd Meithrin cyn diwedd y tymor gyda Martyn Geraint yn rhan o'r croeso.

Casglu arian i'r NSPCC.

Diolch yn fawr i bawb fu'n casglu arian adeg ein chwaraeon noddedig. Cyflwynwyd siec am £1,033.86 i Sarah Phillips o'r NSPCC.

CORNEL y Plant

Amser Nofio

Mae'n amser nofio ond mae dau blentyn ar goll ac yn methu dod o hyd i'r pwll. Tybed a wyt ti'n gallu eu helpu?



Wel, mae'r gwyliau haf bron yma. Da chi'n barod amdanynt? Mi fydd yn braf cael hoe fach am ychydig. Dim ond gobeithio y cawn haf braf, er mwyn cael mynd am lan y môr ac adeiladu cestyll tywod ynte!

Lliwiwch y Mefus Blasus

Y Chwilair

Dewch o hyd i'r geiriau hafaidd yma yn y Chwilair a defnyddiwch y llythrennau sy'n weddill i ddod o hyd i un o brifwyliau Cymru

traeth
bwced
mefus
picnic
pili pala
cregyn
gwyliau
haul
cranc
hufen ia
barbeciw
gwersylla
barcud
cychod
parc
garddio

c	e	n	u	h	dd	a	f	g	c
r	i	y	a	a	g	l	b	w	y
a	s	g	i	u	a	a	a	e	ch
n	u	e	l	l	r	p	r	r	o
c	f	r	y	t	dd	i	b	s	d
d	e	c	w	b	i	l	e	y	u
c	m	s	g	e	o	i	c	ll	c
r	t	r	a	e	th	p	i	a	r
a	c	i	n	c	i	p	w	o	a
p	h	u	f	e	n	i	a	d	b

Clwb Rygbi Pontypridd

Bydd Clwb Rygbi Pontypridd yn edrych ymlaen i'r tymor sydd i ddod gyda brwdfrydedd, a hynny fel pencampwyr Uwch-Gynghrair y Principality.

Yn ôl yr argoelion fe fydd y tymor nesaf yn un hynod o gystadleuol, gyda nifer o'r timau yn yr adran yn ffyddiog y gallant lwyddo. Mae safon yr Uwch-Gynghrair yn codi o flwyddyn i flwyddyn, ac yn feithrinfa effeithiol iawn i chwaraewyr ifanc ddatblygu i chwarae dros y timau cenedlaethol.

Mae Pontypridd eisioes wedi bod wrthi'n ddyfal yn cryfhau eu carfan ar gyfer y tymor i ddod. Mae'r rhan helaeth o'r garfan fu mor lwyddiannus y tymor diwethaf wedi aros gyda'r clwb, a saith wyneb newydd eisioes wedi ymuno a nhw.

Yn dychwelyd i Bontypridd mae'r maswr dawnus Dai Flanagan a'r blaen asgellwr eiddgar Rhys Shellard, y ddau wedi ennill profiad rhanbarthol ac wedi serennu i dim saith bob ochr Cymru.

Dau brop cadarn fydd yn rhoi hwb i reng flaen Ponty yw Scott Roberts a Keiron Jenkins, y ddau yn hannu o'r Rhondda ac yn awr yn dychwelyd at eu gwreiddiau.

Dau fewnwr o safon yw Gareth James, sydd wedi chwarae dros Gastell Nedd a Llanymddyfri, a Carl Thomas fu'n chwarae'n fwy lleol dros Llanilltyd Fardre a Beddau.

Yr olaf o'r newydd ddyfodiaid yw'r canolwr addawol Geraint Walsh sydd wedi chwarae dros Llanharan a Phrifysgol Loughborough lle bu'n astudio.

Bydd carfan Pontypridd hefyd yn elwa o bresenoldeb pum chawaraewr sydd yn cael eu gosod i'r clwb gan ranbarth y Gleision, sef y canolwr Tom Pascoe, y mewnwr Lewis Jones, dau fachwr, Darran Harris a Jack Dando, a'r clo Cory Hill.

Bydd carfan hynod o gref a dawnus gan Bontypridd i wynebu her y tymor sydd i ddod, ond bydd ei hangen yn sicr i gystadlu am Uwch-Gynghrair y Principality, Cwpan Swalec a Chwpan Prydain ac Iwerddon.

Y maswr dawnus Dai Flanagan – yn ôl gyda Phontypridd

C
CROESAIR
L

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau

Enillydd croesair Ebrill yw Mrs G Edwards, Pontyclun.



Ar Draws

7. Creirfa (8)
8. Dywedyd (4)
9. Rholio (5)
10. Adfywio (7)
11. Rhigwm (5)
13. Camleoli (7)
16. Troliwr (7)
17. Gosod yn y gweryd (5)
18. Myfyriwr (7)
20. Corrach (5)
23. Punt (4)
24. Anunion (4,4)

I Lawr

1. Gwisg y meirw (4)
2. Storm o wynt ac eira (8)
3. Addunedu (3)
4. Tŷ ar olwynion (7)
5. Bryn (4)
6. Gweithfeydd (8)
12. Gostyngedig (8)
14. Rhynllyd (8)
15. Gwnïo (7)
19. Symud (4)
21. Diwethaf (4)
22. Llestr gwydr (3)

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 25 Gorffennaf 2012

Problem gyda'r cyfrifiadur?

Arbenigwr gyda
15 mlynedd o brofiad

Cysylltwch â Paul:
(01443) 208472
Ebost: computerpaul@live.co.uk
Symudol: 07731595066

Atebion Mehefin

	C		A		P		S		LL	Y	M	
TH	R	O	M	B	O	S	I	S		O		A
	A		O		E		A		U	N	E	D
C	E	R	D	I	N	I	N		T		D	
	N				Y				G	A	L	W
			D	A	D	W	I	N	O		I	
C	E	G	A		I		S		R	I	W	L
	G		T	R	O	M	B	O	N			
G	W	A	R				R				LL	
	A		Y		B	L	I	N	E	D	I	G
Y	N	Y	S		AA		S		G		N	
M		S		G	W	E	I	N	I	D	O	G
A	F	U			D		O		N		R	

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

(Lluniau tudalen 13)

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau mawr i Miss Betsi Griffiths, pennaeth cyntaf yr ysgol ar gael ei hethol i'r Orsedd. Mae hi wir yn haeddu'r clod.

Dirprwy Bennaeth
Braf iawn yw cael cyhoeddi bod Miss Ceri Hughes wedi ei phenodi fel dirprwy bennaeth yn barhaol yn yr ysgol. Llongyfarchiadau Miss Hughes!

Cydymdeimlo
Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs E. Fussell yn dilyn gwaeledd hir. Edrychodd ar ôl dosbarthiadau llu o blant yn ystod ei chyfnod fel cynorthwydd amser cinio. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mr Fussell ei phriod a gofalwr yr ysgol ers 20 mlynedd.

CRACh-Barbeciw
Diolch yn fawr iawn i aelodau'r Gymdeithas Rieni am drefnu barbeciw llwyddiannus i godi arian i'r ysgol. Llwyddwyd i gasglu £1000 i'r ysgol! Diolch hefyd iddynt am eu gwaith caled drwy gydol y flwyddyn.

Twrnament pêl-fasged - blwyddyn 6
Aeth criw o flwyddyn 6 i gynrychioli'r ysgol mewn twrnament pêl-fasged yng Nghanolfan Chwaraeon Rhondda Fach. Gwnaeth y disgyblion ymdrech ardderchog yn erbyn timau lleol eraill. Diolch yn fawr i Missy Lender am eu hyfforddi.

Twrnament tennis – blwyddyn 4
Wedi llwyddiant yn y twrnament tennis yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant fis Mawrth, aethom i gynrychioli'r ysgol mewn twrnament tennis arall yng Nghanolfan David Lloyd, Caerdydd. Cychwynnom yn gynnar fore Iau, Mehefin 14eg, yn gyffrous ac yn barod i gystadlu! Roedd safon y gystadleuaeth yn uchel ond cafon ni lawer o hwyl a sbri gan drio ein gorau glas.

Menna Neale a William Peart (Bl.4)

Taith feicio – blwyddyn 5
Aeth disgyblion blwyddyn 5 i feicio ar lwybr beicio Parc Treftadaeth y Rhondda ar y 18fed o Fehefin. Roedd hyn yn gyfle gwych i ddathlu 'Wythnos Genedlaethol Beicio'. Ar ôl y daith cawsom gyfle i fwynhau yn y parc. Diolch yn fawr i Amy a Karen o Cymunedau'n Gyntaf Tonyrefail am drefnu'r bore gwych!

Yasmin Richards
a Caitlin Davies (Bl.5)

Traws gwlad yr Urdd
Bu aelodau o Flynyddoedd 4, 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol yn ystod cystadleuaeth traws gwlad yr Urdd. Diolch i'r holl ddisgyblion wnaeth gymryd rhan.

Parc Diogelwch, Trefforest
Cynhaliwyd Crucial Crew ym Mharc Diogelwch, Trefforest i ddisgyblion blwyddyn 6 i ddysgu a chael cyngor ynglŷn â diogelwch. Yn y pentref ffug dysgodd y disgyblion am sefyllfaoedd peryglus posibl mewn amgylchiadau tebyg i rai go iawn. Cafwyd cyfle i ymarfer sgiliau diogelwch mewn man cyffrous, diogel sy'n llawn ysgogiad. Rwy'n siŵr fod pawb wedi dysgu nifer o bethau gwerthfawr iawn.

P.C.Jones
Diolch yn fawr i P.C.Jones am ddod i siarad â phlant Blwyddyn 6 am gyffuriau, tybaco ac alcohol fel rhan o gynllun 'Saff'.

Llysgenhadon
Bu ein 2 Lysgenad sef Ffion Jones Bl6 a Alice Kelly Bl5 i gynhadledd blynyddol Comisynydd Plant Cymru ym Mharc Margam gyda Keith Towler. Roeddynt wedi mwynhau'r gwahanol weithdai oedd wedi eu paratoi ar eu cyfer. Mae Ffion ac Alice yn gweithio'n galed yn yr ysgol i hybu gwaith y Comisiynydd.

Cystadleuaeth creu poster
Trefnodd Cymunedau'n Gyntaf Tonyrefail i ddisgyblion yr adran iau gynllunio a chreu poster i annog perchnogion i glirio baw eu cŵn mewn mannau cyhoeddus neu i leihau'r broblem sbwriel ar y strydoedd. Mae posteri Charlotte Howarth a Ffion Jones o'r adran iau a Nia Williams, Megan Williams a Jenny Mansel-Thomas o'r cyfnod sylfaen nawr wedi eu hargraffu ac fe fyddant yn cael eu harddangos o amgylch yr ardal. Diolch i'r Cynghorydd McDonald am ddod i'r ysgol i gyflwyno'r tystysgrifau a'r gwobrau ac i Dean Vaughan o't Tîm Gofal Strydoedd am ei waith. Da iawn chi!

Gwasanaethau / Sioeau Diwedd Blwyddyn
Cafwyd nifer o wasanaethau amrywiol, lliwgar a llwyddiannus gan y dosbarthiadau. Braf oedd gweld cymaint o rieni yn cefnogi. Hoffem ddiolch i'r holl blant a staff am eu gwaith caled.

Ffarwel a phob lwc blwyddyn 6!
Rwy'n siŵr y bydd ychydig o ddagrau ar ddiwrnodau olaf y tymor wrth i ni ffarwelio â phlant blwyddyn 6. Mae'r plant nawr yn edrych ymlaen at fynd i Ysgol Gyfun Llanhari ym mis Medi wedi iddynt dreulio nifer o ddiwrnodiau pontio yno. Dymunwn 'pob lwc' i bob un ohonynt gan obeithio y bydd pob un yn cadw mewn cysylltiad gyda ni yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Pob lwc blwyddyn 6!

Ysgol Garth Olwg

Eisteddfod
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Ymweliad Marc Morgan
Diolch i Mr Marc Morgan a ddaeth i siarad gyda'r Adran Iau am ei brofiad o gystadlu yn Ras Pegwn Y De. Mae Mr Morgan wedi cyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth 'Dysgwr y Flwyddyn'.

Criced
Llongyfarchiadau i dîm criced bechgyn Blwyddyn 4 am ddod yn ail yng ngystadleuaeth Criced yr Urdd.

Traws Gwlad
Mwynheuodd rhai o blant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 redeg yng nghystadleuaeth Traws Gwlad yr Urdd. Dyma'r canlyniadau: Merched Blwyddyn 6 - 1af, Merched Blwyddyn 5 - 2il, Merched Blwyddyn 3 a 4 - 1af, Bechgyn Blwyddyn 5 - 1af

Y Côr
Gwahoddwyd y côr a rhai o gystadleuwyr yr Eisteddfod i ganu ym mharti ffarwelio 'Merched y Garth' yn ddiweddar. Hefyd, canodd y cor yn nathliad 'Diwrnod i'r Teulu' yn y Ganolfan Gydol Oes.

Ras 10k Llanelli
Llongyfarchiadau mawr i Mr Gruffydd am gwblhau y ras 10K yn Llanelli gydag amser arbennig o 45 mumud.

Torch Olympaidd
Diolch i Mr Gareth Morris, o brifysgol Morgannwg a ddaeth â'r Torch Olympaidd i'r ysgol. Buodd Gareth yn cario'r torch ym Merthyr. Rhedodd o Gastell Cyfarthfa i'r ganolfan siopau. Gwisgodd y plant yn lliwiau'r faner Olympaidd a chafodd nifer gyfle i ddal y torch.

Cwis Llyfrau
Llongyfarchiadau mawr i dîm cwis llyfrau Blwyddyn 5 am gyrraedd y rownd derfynol yn Aberystwyrth. Mae'r plant wedi gweithio'n galed yn darllen a dysgu geriaiu ar gyfer y gystadleuaeth. Diolch i Mr Meredith am hyfforddi'r plant.

Ysgol Tonyrefail

Ffion Jones Bl6 ac Alice Kelly Bl5 gyda Comisynydd Plant Cymru, Keith Towler

Blwyddyn 5 ar lwybr beicio Parc Treftadaeth y Rhondda

Twrnament tennis – blwyddyn 4

Tîm pêl-fasged blwyddyn 6

Ysgol Gyfun Llanhari (Tudalen 8)

Parti Llefaru Llanhari yn cael eu hymarfer olaf yn eu Wellingtons yn y mwd!

Disgyblion Llanhari yn cyfeiriannu

Ysgol Garth Olwg

Ymweliad Marc Morgan

Mr Morris a'r Torch Olympaidd

Tîm y Cwis Llyfrau

Ymweliad Bl 6 ar gyfer Diwrnod celfyddydau perfformio

Cynllun Llwybrau'r Brig, yn y Gogledd
Joel Duffy, Corey Smith-Wilkes, Morgan Cowdrey, Callum Evans, Jac Clements, Jake Hapgood Leon Enoch o Flwyddyn 10.

YSGOL GYFUN GARTH OLWG

(Lluniau tudalen 16)

Tenis Bwrdd – Pencampwriaethau Cymru 2012

Fe gadwodd Jac Jenkins o Flwyddyn 8 ei afael ar ei deitl dan 13 i fechgyn yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yn y rownd derfynol yn ddiweddar gyda buddugoliaeth o 3 - 1 yn erbyn Thomas Heyden o Abertawe. Yn y rownd gynderfynol curodd Jac chwaraewr o Ferthyr sef Jack Cole o 3 - 0.

Mae Jac ar fin teithio i Lwcsembwrg a Guernsey ym mis Mehefin i gynrychioli Cymru mewn digwyddiadau rhyngwladol.

Gyda Jac yn ennill teitl arall mae'n dilyn yn ôl troed ei dad wrth agosáu at ei gofnod o 11 o deitlau uwch yn chware dros Gymru.

Da iawn ti unwaith eto Jac. Llongyfarchiadau mawr a dal ati!

Criced

Llongyfarchiadau i Daniel Parry o Flwyddyn 7 a fu'n chwarae criced dros Forgannwg Ganol mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Gaerdydd a'r Fro yng nghlwb criced Pentyrch yn ddiweddar.

Cwmni Opera Cymru – "La Bohème"

Mae Cerys Foot o Flwyddyn 7 wedi cael ei dewis i fod yn rhan o gynhyrchiad Cwmni Opera Cymru o La Bohème. Mae hi ar hyn o bryd yn brysur iawn yn mynychu ymarferion. Bu'n perfformio o 1 – 9 Mehefin. Symudodd y cynhyrchiad i Birmingham ar y 13 Mehefin am dri pherfformiad.

Bydd y cynhyrchiad yn ail gychwyn yng Nghanolfan y Mileniwm ym mis Medi cyn mynd ar daith i Abertawe, Llandudno, Rhydychen, Southampton, Birmingham, Lerpwl cyn gorffen ym Mryste ar ddechrau mis Rhagfyr.

Mae amser prysur iawn o dy flaen Cerys. Llongyfarchiadau mawr i ti a mwynha'r profiad arbennig yma.

Pêl-fasged

Llongyfarchiadau i Connor Easter o Flwyddyn 10 a gafodd ei ddewis i chwarae pêl-fasged dros Gymru o dan 15 y mis diwethaf yn erbyn yr Alban o dan 15. Yn fwy na hynny, cafodd y fraint o gael ei ddewis yn Gapten ar y tîm. Cafodd y gêm ei chware yn Ganolfan Chwaraeon Rhondda Fach.

Mis Ebrill bu'n cynrychioli tîm Cymru o dan 16 mewn gêm galed yn erbyn yr Iwerddon. Da iawn ti Conor.

Can Actol Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012

Thema'r gan actol eleni oedd "Gorau chwarae, cyd-chwarae". Y syniad gawsom ni oedd bod rhywun yn dwyn coron y frenhines gan ei bod hi'n flwyddyn y jiwbilî, a thrwy gydweithio'r heddlu, "y bois in blw", down o hyd i'r lleidr!

Roedd rhai o'r criw lan yn y gogledd yn barod ar gyfer y gystadleuaeth dydd Iau ond fe deithiodd criw ohonom lan yn fore er mwyn cyrraedd y rhagbrawf ar ddechrau'r prynhawn. Er gwaetha'r tywydd diflas cawsom daith bleserus yn gwylio DVD's a chloncian!

Aeth y rhagbrawf yn dda gyda'r gynulleidfa a'r beirniaid yn ymateb yn dda. Roedd yn wych clywed enw'r ysgol yn cael ei ddarllen allan a deall y byddem yn cael perfformio eto ar y llwyfan!

Yn hwyr yn y prynhawn felly, roeddem ni ar lwyfan fawr yr eisteddfod yn perfformio ein cân actol eto. Roedd canolbwyntiad pawb yn wych gan roi o'u gorau. Mwynheuodd y gynulleidfa'r perfformiad wrth sŵn y curo dwylo ar y diwedd ! Wedyn bu'n rhaid aros ac aros, ac aros i glywed y canlyniad. Yna gyda phawb o gwmpas y sgrin fach yng nghefn y llwyfan, bu bloedd fawr pan glywsom ein bod wedi cael yr ail wobr. Hwre!

Diwrnod blinedig ond diwrnod da. Roedd beirniadaeth y ddau feirniad yn hael iawn yn ein canmol i'r cymylau ac yn wir yn dweud pe bai gwobr i'r actor gorau, Ethan Williams "Poirot" fyddai wedi mynd â hi!

Cyrhaeddom nôl yn griw blinedig ond yn griw hapus iawn. Diolch yn fawr iawn i Miss Menna Lewis a Mrs Lowri Guy am ein hyfforddi a rhoi pleser llwyddiant i ni!

Athletau

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol a fu'n cymryd rhan yn Athletau'r Sir yn ddiweddar yn Aberdâr:

Alex Price Bl 9 1af yn y ras 1,500m
Jac Smith Bl 8 3ydd yn y ras 800m
Trystan Vaughan Bl 9 3ydd yn y Clwydi

Aeth Alex Price o Flwyddyn 9 yn ei flaen i gystadlu ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol Cymru a gafodd eu cynnal yn Stadiwm Lecwydd yng Nghaerdydd. Ddaeth yn 3ydd yn y ras 800m ac yn y ras 1,500m. Da iawn ti Alex.

Cyngerdd Offerynnol

Cynhaliwyd Cyngerdd Offerynnol y Sir yn Theatr Parc a Dâr, Treorci ar y 28 Mai. Roedd ensemble telyn y Sir yn cynnwys, Emma Saethwn a Rebeca Preddy o Flwyddyn 8 ac Elan Ogleby a Bethan Putterill o Flwyddyn 7.

Ymweliad y Ffagl Olympaidd

Daeth cyffro arbennig i'r ysgol fore Mawrth 29 Mai pan gyrhaeddodd y ffagl Olympaidd. Roedd Gareth Morris o Brifysgol Morgannwg wedi cario'r fflam drwy Bontypridd ar y dydd Sadwrn blaenorol. Penderfynodd rannu'r profiad gyda disgyblion yr ysgol a disgyblion ysgolion Cynradd Cymraeg Pontypridd drwy fynd â'r ffagl y bu'n ei gario, o gwmpas yr ysgolion. Aeth yr ysgol ati felly i drefnu ei "Thaith Olympaidd" ei hun! Arweiniwyd y ffagl o Ysgol Gynradd Garth Olwg gan orymdaith o ddisgyblion yr ysgol sydd wedi cynrychioli Cymru mewn camp benodol, ynghyd â Maer a Maeres Rhondda Cynon Taf a chynrychiolwyr o'r Brifysgol. Roedd yr ysgol gyfan wedi cael cyfle i weld y ffagl yn mynd heibio i adeiladau'r ysgol ac i fyny drwy'r gyrchfan fysiau. Yno cyfarchodd y Maer a Gareth Morris y disgyblion a chawsom berfformiad arbennig iawn gan ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yr ysgol yn perfformio dau gorws o'r Gân Actol, a enillodd ail wobr Eisteddfod yr Urdd iddynt hwy eleni. Roedd y thema'n hynod addas, sef 'Gorau chwarae, cyd chwarae'. Roedd yn ddiwrnod crasboeth ac roedd yn brofiad y bydd y disgyblion yn ei gofio am amser hir - a chafodd nifer ohonynt gyfle i gael llun gyda ffagl Gemau Olympaidd 2012!

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Jayne Rees

Merched y Wawr

Taith gerdded yw'n cyfarfod y mis yma. Byddwn yn cwrdd yn y caffi ym Mharc Gwledig Aberdar am 6.00 nos Iau, Gorff 12fed. Unwaith eto Derec Stockley yw'r gŵr dewr i'n tywys a'n difyrru ar y daith. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Margaret Francis 492838

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Cath a Maldwyn Morris. Maent wedi symud yn ddiweddar o Gilfynydd i'r Parade yn y dre.

Newyddion Trist

Estynnwn ein cydymdeimlad i Clive a Pat Henley, Maesycoed. Bu farw eu mab, Jason yn sydyn ym mis Mai. Roedd Jason yn gyn-ddisgybl Pont Sion Norton a Rhydfelen.

Yn ddisymwth bu farw yr actor Dorien Thomas o Bontypridd ar Fehefin 8fed yn 55 mlwydd oed. Yn ystod ei yrfa gwelwyd Dorien mewn dramau ar S4C a chyfresi ar y BBC. Roedd yn wyneb cyfarwydd yng Nghlwb y Bont dros y blynyddoedd.

Clwb Llyfrau

Hoe dros yr haf - cyfle i bori ar arlwy y Wasg Gymraeg ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol. Byddwn yn cwrdd am bryd o fwyd ar nos Fawrth, Medi'r 18fed i drafod rhaglen y gaeaf.

Beth am ymuno â ni? Cysylltwch â Jayne am fwy o wybodaeth. 405837

Canlyniad Gwych!

Llongyfarchiadau i Lowri Mared, merch Delyth a Graham Davies, Cilfynydd am ennill Gradd Dosbarth Gyntaf mewn Deietegaeth gan Brifysgol Caerdydd.

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) :

Mis Gorffennaf:
1af. Gwasanaeth Ardal - Gogledd a Dwyrain Caerdydd
8fed. Oedfa Gymun Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)
15fed. Dim Oedfa ym Methlehem - Sul y Cyfundeb (Ysgol Gyfun Glantaf, Caerdydd)
22ain. Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)
29ain. Oedfa ym Methlehem - dan ofal yr Aelodau - Efail Isaf yn ymuno

Mis Awst:
5ed Oedfa Gymun ar y cyd yn y Tabernacl, Efail Isaf
12fed Oedfa ar y cyd dan ofal yr Aelodau ym Methlehem, Gwaelod-y-garth
19eg Oedfa Gymun ar y cyd yn y Tabernacl, Efail Isaf
26ain Oedfa ar y cyd dan ofal yr Aelodau ym Methlehem, Gwaelod-y-garth

Mis Medi:
2il Oedfa agoriadol y tymor newydd

Sul i'w gofio oedd yr 17eg o Fehefin, pryd y gwahoddwyd Gwyn Griffiths i'r oedfa i draddodi hanes yr Apostol Heddwch o Dregaron, sef Henry Richard.

Mewn cwta hanner awr cawsom ein cyfareddu gan huodledd Gwyn ac anferthedd cyfraniad Henry Richard i heddwch byd-eang, a'i berthnasedd i gymaint o'r materion rheini sy'n poeni ein cymdeithas hyd y dydd heddiw.

Dymunwn yn dda i werthiant y llyfr a ysgrifennodd Gwyn am y gwrthrych yma y cofiwn am ei eni 200 mlynedd yn ôl i eleni.

Ar nos Iau yr 21ain o Fehefin yma ym Methlehem braint ydi cael cofnodi urddo Eirlys Davies, Radyr, yn Llywydd Mudiad Chwiorydd yr Annibynwyr Talaith y De. Trosglwyddwyd yr awenau oddiwrth Bethan Thomas, Gellimanwyd, Rhydaman yn y Cyfarfod Blynyddol a chafwyd anerchiad gan Betsan Powys ar thema "Cadw Gair".

Roedd Parti Merched Bethlehem wedi bod wrthi'n ddygn yn paratoi eu heitem hwy o gyfarch i Eirlys, a hynny dan arweiniad Delyth Evans, a bu parti mwy yn y Festri i ddilyn! Pob llwyddiant iddi yn ystod ei thymor fel Llywydd.

Ar Sul y 15fed o Orffennaf, am 5:00 yr hwyr cynhelir Swper Haf y Capel, a bryd hynny y byddwn yn cyflwyno siec i'n helusen leol dros y ddwy flynedd ddiwethaf yma, sef yr Ystafell Fyw. Ymfalchiwn yn llwyddiant y fenter yma, gweledigaeth un o'n haelodau Wynford Ellis Owen, a dymunwn lwyddiant pellach wrth i'r ganolfan yma gyflawni gwaith amrhisiadwy ymysg unigolion a theuluoedd sydd mewn angen.

Sul y 15fed hefyd fydd Sul y Cyfundeb, ac mae'r cyfan yn dychwelyd i Ysgol Gyfun Glantaf eleni wedi sbel yn Ysgol Bro Morgannwg, Y Barri. Synnwn i ddim mai thema wedi ei ysbrydoli gan y Gemau Olympaidd fydd y drefn!

Dymunwn haf ysblennydd i bawb o'n haelodau a'u cyfeillion, gan edrych ymlaen at dymor newydd arall ym mis Medi pryd y bydd y Gair o'r newydd yn sbardun pellach i'n tystiolaeth.

Cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org a'n cyfri trydar (twitter) @gwebethlehem.

Os oes chwant troi i mewn i oedfa rhywbryd yn y dyfodol, bydd croeso twymgalon yn eich disgwyl bob amser ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Hwyl fawr a diolch!
Mae'r myfyrwyr eisoes wedi ein gadael ni ar ôl iddynt gael tymor prysur iawn yn yr ysgol. Dymunwn yn dda i Miss Ffion Rowlands a Mr Osian Pritchard yn eu gyrfaoedd newydd! Llongyfarchiadau i Miss Rowlands ar gael swydd yn yr ysgol gynradd newydd yn Llanhari ym mis Medi.

Sioeau
Mae'r holl blant a staff yr ysgol wrthi'n paratoi ar gyfer ein sioeau diwedd blwyddyn. Cynhaliwyd sioe y dosbarthiadau meithrin ar Fehefin 21ain a'r dosbarthiadau derbyn ar Fehefin 24ain. Croesawodd y plant derbyn Now o rhaglen Ribidires i'r ysgol iddo gael gweld eu sioe a oedd yn seiliedig ar y rhaglen. Braf oedd gweld amrywiaeth o wisgoedd hyfryd! Diolch i'r rhieni am eu gwaith caled. Canodd y plant yn wych a chofio eu geiriau yn arbennig!

Eisteddfod
Llongyfarchiadau mawr i bob un o'r disgyblion a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Eryri. Er gwaetha'r traffig, llwyddodd bob un gyrraedd y rhagbrofion mewn pryd! Roedd pob un wedi canu a dawnsio yn wych! Diolch i bob un a deithiodd lan i'r gogledd i gefnogi. Roedd 9 cystadleuaeth i gyd.
Elan Booth ~ Alaw Werin i blant o flwyddyn 6 ac iau
Alys Thomas ~ Llefaru i blant o flwyddyn 2 ac iau. Ac Unawd i blant.
Steffan Veck ~ Unawd i blant o flynyddoedd 5 a 6
Luke James ~ Unawd i blant o flynyddoedd 3 a 4
Parti Deulais. Côr yr Ysgol.
Ensemble Lleisiol ~ Jessica Porter, Lily Gaskin, Erin Pritchard, Steffan Veck, Elan Booth, Elin James, Luke James, Rhiannon Cummings
Dawnsio Gwerin i blant o flynyddoedd 5 a 6 ~ Steffan Veck, Joe Buckle, Joseff Wyn Kirkman, Bethan Grant, Grace Daunter, Angharad Phillips, Elan Booth, Nicole Stark, Lucy Underhill, Jessica Porter

Bu'r Parti Deulais a'r Ensemble Lleisiol yn fuddugol yn eu cystadlaethau nhw a chafodd Luke 3ydd yn yr Unawd i blant o flynyddoedd 3 a 4.

Diolch i'r holl blant am eu gwaith caled ac i'r aelodau o staff am eu hyfforddi. Hoffwn ddiolch hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth bob tro.

Gwaith Celf
Llongyfarchiadau i Myfanwy Evans a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd. Creodd Myfi gemwaith ar thema'r Gemau Olympaidd.

Chwaraeon
Mae'r plant wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn cymryd rhan mewn gwahanol chwaraeon! Bu tîm o blant o flwyddyn 5 yn cystadlu mewn cystadleuaeth criced ar Fehefin 14ain. Llwyddon nhw ennill tair gêm a cholli un. Ar yr un diwrnod, bu timau o flynyddoedd 3 a 4 yn cystadlu mewn cystadleuaeth criced yr Urdd ym Mhenybont. Llwyddodd y tîm cyntaf ennill ac felly byddant yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf yng Nghastell Caerdydd. Bu plant o flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn cystadlu mewn cystadleuaeth Trawsgwlad ar Fehefin 19eg. Llongyfarchiadau mawr i bob un a gystadlodd.

Cwis Llyfrau
Llongyfarchiadau i dîm blwyddyn 4 ar gyrraedd y rownd derfynol yng Nghwis Llyfrau yr Urdd. Aethant i Aberystwyth ar Fehefin 19eg. Buont yn trafod stori 'Nab Wrc' a buont yn actio un o straeon Henri Helynt. Llongyfarchiadau mawr i bob un a diolch i'r athrawon am eu hyfforddi.

Diwrnod Gwallt Gwirion
Llwyddom godi'r swm anghygoel o £1300 gyda'n Diwrnod Gwallt Gwirion ar y 30ain o Fai. Bydd yr arian yn mynd tuag at helpu un o gynorthwyr dosbarth yr ysgol ac yn gyn-ddisgybl sydd yn sal iawn ar hyn o bryd. Diolch i bawb a ddaeth â chacennau i'n bore coffi—erbyn diwedd y dydd roedd pob dim wedi diflannu! Mae Lili a Noa Griffith o flynyddoedd 4 ac 1 yn wedi nofio milltir o hyd, ac wedi casglu £1000 er mwyn codi mwy o arian i'r apêl. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau!

YSGOL GYFUN GARTH OLWG

Criw'r Gân Actol yn Eisteddfod yr Urdd

Gareth Morris a'r Ffagl Olympaidd

Cerys Foot, Blwyddyn 7

Ysgol Llantrisant

Now gyda phlant sioe Ribidires y dosbarth Derbyn

Jac Jenkins, Blwyddyn 8

Conor Easter, Blwyddyn 10

Tîm y Cwis Llyfrau

Tîm Criced llwyddiannus

Criw Eisteddfod yr Urdd

Noa a Lili fu'n nofio milltir tuag at apêl yr ysgol